CYFRES C7

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
1 Samuel 20: 1-42

Mae'r stori yma'n sôn am:
Ffrind gorau Dafydd

Stori 1 Dafydd yn cuddio

Roedd y Brenin Saul yn genfigennus iawn o Dafydd. Ceisiodd ei ladd sawl gwaith. Roedd rhaid i Dafydd redeg i ffwrdd a chuddio oddi wrth Saul. Jonathan, mab y brenin, oedd ffrind gorau Dafydd. Roedd Jonathan yn rhybuddio Dafydd pan oedd mewn perygl. Weithiau, roedd Dafydd a Jonathan yn cyfarfod yn slei bach i feddwl sut allai Dafydd ddianc rhag Saul.

Pwy oedd eisiau lladd Dafydd?

S __ __ __

Pwy oedd ffrind gorau Dafydd?

J __ __ __ ____ __ __

Roedd Dafydd yn falch bod ganddo ffrind da. Roedd Jonathan yn ffrind ffyddlon iddo. Helpodd Jonathan i achub bywyd Dafydd. Mae'r Beibl yn dweud bod Jonathan yn caru Dafydd

gymaint ag yr oedd yn ei garu ei hunan.

Lliwiwch y geiriau a'r llun.

Mae Iesu'n dy garu di ac eisiau bod yn ffrind i ti. Mae'n dy garu gymaint fel ei fod wedi marw drosot ti. Wyt ti eisiau bod yn ffrind i Iesu?

Enw

DARLLENWCH
1 Samuel 24: 1-22

Mae'r stori yma'n sôn am:
Dafydd yn maddau i Saul

Stori 2 Dafydd yn arbed bywyd Saul

Roedd Saul a'i filwyr yn chwilio am Dafydd. Un tro, aeth Dafydd i guddio mewn ogof fawr. Pan oedd yno, daeth Saul i mewn i'r ogof. Welodd e 'mo Dafydd. Aeth Dafydd at Saul yn dawel bach a thorri darn o'i gôt. Sylwodd Saul ddim arno.

Rhowch linell o dan y geiriau cywir.

Torrodd **Saul / Dafydd** ddarn o gôt **Saul / Dafydd.**

Aeth y brenin allan o'r ogof. Aeth Dafydd ar ei ôl â'r darn o'r gôt yn ei law. Gwaeddodd ar Saul "Edrych beth sy gen i! Gallwn i fod wedi dy ladd di."

Roedd y Brenin Saul wedi dychryn. Roedd yn ddiolchgar i Dafydd am beidio â'i ladd. Dywedodd na fyddai'n ceisio lladd Dafydd eto.

Roedd Dafydd yn barod i faddau i Saul. Doedd e ddim eisiau talu 'nôl iddo am fod yn gas wrtho.

Mae Duw eisiau maddau i ni am y pethau drwg rydyn ni wedi'u gwneud. Mae Iesu wedi marw dros ein pechodau ni ar y groes.



Llanwch y bylchau.

Roedd Dafydd yn barod i faddau i S _ _ _.

Mae Duw yn barod i faddau i n_.

Mae I_ _ _ wedi marw drosom ni.

Enw

DARLLENWCH
1 Samuel 31: 1-16
a
2 Samuel 5: 1-5

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw yn cadw ei addewid.

Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Dafydd yn dod yn frenin

Bu farw'r Brenin Saul a thri o'i feibion mewn rhyfel cas yn erbyn y Philistiaid. Jonathan, ffrind gorau Dafydd, oedd un o'r meibion hyn.

Rhowch (✓) neu (✗) i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.

1. Bu farw'r Brenin Saul mewn rhyfel yn erbyn y Philistiaid. ❑

2. Cafodd dau o feibion Saul eu lladd hefyd. ❑

Roedd Dafydd yn drist iawn pan glywodd fod Jonathan wedi marw. Ysgrifennodd bennill i gofio amdano.

Roedd Dafydd a Jonathan yn caru ei gilydd yn fawr ond mae Iesu Grist (mab Duw) yn ein caru ni hyd yn oed yn fwy.

Mae'r Beibl yn dweud yn Galatiaid 2:20

"Carodd Mab Duw fi a'i roi ei hunan drosof i."

(Lliwiwch y geiriau a'r llun)

Roedd rhaid cael brenin newydd. Pwy fyddai hwnnw? Dafydd oedd e! Pan oedd Dafydd yn fachgen ifanc, roedd Duw wedi addo y byddai'n frenin. Roedd addewid Duw yn dod yn wir!

Bu Dafydd yn frenin Israel am 40 mlynedd.

Roedd Dafydd yn trystio Duw. Dylen ni drystio Duw hefyd.

Enw

DARLLENWCH
2 Samuel 9: 1-13

Mae'r stori yma'n sôn am **Dafydd yn garedig.**

Stori 4 Dafydd a Meffiboseth

Pan gafodd Jonathan ei ladd roedd ganddo fab bach 5 oed. Meffiboseth oedd ei enw. Ar y un diwrnod y cafodd Jonathan ei ladd, cafodd Meffiboseth ddamwain gas ac anafu ei draed. Wedi hynny, roedd yn gloff.

Llanwch y bylchau a lliwio enw mab Jonathan.

Meff_b__s__th



Erbyn hyn, roedd Meffiboseth wedi tyfu ond roedd yn dal yn gloff.

Un diwrnod, galwodd Dafydd arno i ddod i'r palas.

"Paid â bod ofn," meddai'r brenin Dafydd. "Rwy eisiau bod yn garedig i ti er mwyn Jonathan."

Rhoddodd Dafydd dir Saul a Jonathan i Meffiboseth.

Ar ben hynny, roedd Meffiboseth yn cael bwyta gyda'r brenin bob dydd fel pe bai'n fab iddo!

Roedd Dafydd yn g _ _ _ _ _ _ i Meffiboseth er mwyn J_ _ _ __ _ _.

Mae Duw yn gallu'n gwneud ni yn rhan o'i deulu oherwydd bod Iesu Grist wedi marw droson ni. Pan rydyn ni'n derbyn Iesu i'n calon, rydyn ni'n dod yn blant i Dduw.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120